

Cod Ymarfer Statudol ar y Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth 2021-22

Daw'r cod ymarfer awtistiaeth i rym ar 1 Medi 2021. Mae'n rhoi eglurder ynghylch y cyfrifoldebau a osodir ar fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a/neu Ddeddf GIG (Cymru) 2006 o ran y cyfrifoldebau a'r gwasanaethau y bydd yn ofynnol iddynt eu darparu i gefnogi pobl awtistig yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn amlinellu blwyddyn gyntaf blaenoriaethau tymor y Senedd hon. Caiff blaenoriaethau'r dyfodol eu llywio gan ganlyniadau'r adolygiad o alw a chapasiti gwasanaethau nodedd sydd i'w cwblhau ym mis Mawrth 2022.

Bydd gweithredu'r cam cyntaf hwn yn effeithiol yn dibynnu ar gydweithio a dysgu o adborth gan bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r tabl cyntaf (isod) yn pennu rhif i bob sefydliad cyflawni. Mae hyn yn cyfateb i'r adran 'Pwy sy'n rhan o'r gwaith' yn y cynllun cyflawni i ddangos pa sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r maes blaenoriaeth. Bydd barn pobl awtistig, eu teuluoedd a/neu ofalwyr ynghyd â rhanddeiliaid yn ganolog wrth fesur llwyddiant pob maes blaenoriaeth.

Llywodraeth Cymru	Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	Rhwydwaith Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol	Awdurdodau Lleol	Byrddau Iechyd Lleol	Sefydliadau trydydd sector	Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)	Y Grŵp Cyngori ar Awtistiaeth
1	2	3	4	5	6	7	8	9	10

Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Sut y byddwn yn ei wneud	Canlyniad	Pwy sy'n rhan o'r gwaith
Maes Blaenoriaeth 1: Cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu			
Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o roi cyngor ac arweiniad arbenigol ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth a chyflawni'r Cod Ymarfer	Byddwn yn parhau i ariannu'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i gefnogi gweithredu'r Cod Ymarfer.	Cyngor ac arweiniad hygyrch i'r holl randdeiliaid. Mesur: Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ac adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru.	1 a 2
Maes Blaenoriaeth 2: Codi ymwybyddiaeth			
Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyflogwyr o awtistiaeth a'r Cod Ymarfer	Bydd y NAT a'r trydydd sector yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o	Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o awtistiaeth.	2, 3 a 7

Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Sut y byddwn yn ei wneud	Canlyniad	Pwy sy'n rhan o'r gwaith
	awtistiaeth. Bydd y Nat yn hyrwyddo'r Ymgyrch Ymwybyddiaeth Awtistiaeth fel rhan o'i chynllun gwaith blynyddol.	Mesur: Adroddiad Blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a chasglu data. Adborth gan bobl awtistig eu teuluoedd a/neu ofalwyr.	
Maes Blaenoriaeth 3: Hyfforddiant			
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi dadansoddi anghenion hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau yn y Cod Ymarfer	Byddwn yn ymgysylltu ag arweinwyr gweithlu lleol (ALI) a byrddau iechyd lleol (BILI) i gefnogi'r broses o nodi anghenion hyfforddi a datblygu.	Nodwyd anghenion hyfforddi staff. Mesur: Bydd gan bob maes ei fatrics anghenion hyfforddi.	1,2,5,6 a 8
Maes Blaenoriaeth 4: Gwasanaethau Asesu a Diagnosis			
Byddwn yn cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau asesu a chefnogi awtistiaeth.	Byddwn yn ysgogi gwelliant i wasanaethau asesu oedolion drwy weithredu dyletswyddau'r BILI yn y Cod a thrwy barhau i ariannu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS).	Bydd oedolion yn cael gwell gwasanaethau asesu a chymorth drwy BILlau a'r Gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth.. Mesur: Data IAS a byrddau iechyd	1,5,8
Byddwn yn cefnogi ffrwd waith niwroddatblygiadol Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc 2 yn ei gwaith i geisio gwella gwasanaethau asesu i blant a phobl ifanc.	Byddwn yn cydweithio â'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc 2 a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i gynnig cymorth ar gyfer hyfforddiant diagnostig.	Gwell gwasanaethau asesu plant a phobl ifanc. Mesur Ffrwd waith ND TCYP fel rhan o ofynion adrodd ehangach y rhaglen T4CYP.	1,2,6 a 9
Maes Blaenoriaeth 5: Iechyd a Gofal Cymdeithasol			
Byddwn yn ysgogi cynnwys y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau	Byddwn yn cwblhau adolygiad galw a chapasiti o wasanaethau nodded i blant ac oedolion erbyn mis Mawrth 2022, a fydd yn cynnwys darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Bydd pobl awtistig eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu cael mynediad at wasanaethau awtistiaeth dwyieithog. Mesur: Cyhoeddir adroddiad adolygu'r galw a chapasiti gydag ymateb gan	1,2,3,4,5, 6,7, 8 a 9

Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Sut y byddwn yn ei wneud	Canlyniad	Pwy sy'n rhan o'r gwaith
	Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â chyfarwyddyd y Cod.	Lywodraeth Cymru. Adborth gan bobl awtistig eu teuluoedd a/neu ofalwyr.	
Maes Blaenoriaeth 6: Adferiad, Cynhwysiant a Llesiant			
Byddwn yn cefnogi pobl awtistig y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt ac yn cefnogi adferiad.	<p>Drwy weithredu'r Cod Ymarfer byddwn yn rhoi gwybod i bobl awtistig eu teuluoedd a'u gofalwyr am y cymorth a'r gwasanaethau gwell sydd ar gael iddynt.</p> <p>Bydd y Tim Awtistiaeth Cenedlaethol yn sicrhau bod gwybodaeth ar wefan Autismwales.org yn parhau i fod yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth ac yn cyfeirio at Covid-19.</p> <p>Byddwn yn parhau i gefnogi clybiau Sbectrwm Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a phrosiectau Trydydd Sector Cysylltiadau Sbectrwm Awtistig Cymru sy'n rhoi cymorth i bobl awtistig.</p>	Bydd pobl awtistig yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth drwy adferiad COVID-19. Mesur: Ymweliadau â thudalen COVID-19 gwefan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Adroddiadau cynnydd prosiectau cynllun grant y trydydd sector	1,2,3,5,6, a 7
Byddwn yn cefnogi ac yn cynnwys pobl awtistig sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a/neu sy'n nodi eu bod yn LGBTQ+.	<p>Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned Tsieineaidd yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn adran gofal cymdeithasol Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.</p>	Bydd gwahaniaethau unigol a diwylliannol pobl awtistig sy'n Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a/neu sy'n nodi eu bod yn LGBTQ+ yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau a ddarperir. Mesur:	1,2,3,5,6 a 7

Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Sut y byddwn yn ei wneud	Canlyniad	Pwy sy'n rhan o'r gwaith
	Byddwn yn mynychu ac yn ymgysylltu â grwpiau mewnol ac allanol i gefnogi hawliau pobl awtistig sy'n nodi eu bod yn LGBTQ+.	Asesiad o Anghenion y Boblogaeth /cynlluniau ardal Lleisiau cymunedau lleiafrifol.	
Maes Blaenoriaeth 7: Cynnwys Rhanddeiliaid			
Byddwn yn sicrhau bod pobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan ym mhob datblygiad polisi a gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth yn y dyfodol.	<p>Bydd Grŵp Cyngori ar Awtistiaeth Llywodraeth Cymru yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys pobl awtistig, cynrychiolwyr rhieni a gofalwyr a sefydliadau darparu gwasanaethau gan gynnwys y trydydd sector.</p> <p>Drwy'r Cod bydd pob RPB yn penodi Hyrwyddwr Awtistiaeth i eistedd ar y bwrdd a sicrhau bod llais pobl awtistig yn cael ei glywed.</p> <p>Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl awtistig drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu weminar o leiaf unwaith y flwyddyn.</p>	Bydd gan bobl awtistig lais mewn datblygu gwasanaethau Mesur: Cofnodion cyfarfodydd a chanlyniad y camau gweithredu. Asesiadau o anghenion poblogaeth / cynlluniau ardal	1, 2, 4, 7 a 10
Maes Blaenoriaeth 8: Cynllunio, Casglu a Monitro Data			

Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Sut y byddwn yn ei wneud	Canlyniad	Pwy sy'n rhan o'r gwaith
Byddwn yn darparu cyllid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith awtistiaeth, Asesu Anghenion y Boblogaeth a Chynlluniau Ardal.	Bydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi rôl newydd hyrwyddwr awtistiaeth ym mhob bwrdd ac i ddatblygu seilwaith awtistiaeth.	Bydd anghenion pobl awtistig a rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal a datblygu gwasanaethau. Mesur: Adroddiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Asesiadau o anghenion poblogaeth / cynlluniau ardal	1, 2 a 3